| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (y CBC)** |
| DYDDIAD: | **24 Mawrth, 2023** |
| PWNC: | **Ymestyn Cyfnod Secondiad i rôl Prif Weithredwr dros dro y CBC** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Gwynedd** |

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

**Ymestyn cyfnod penodiad Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru yn Brif Weithredwr rhan-amser Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ar sail secondiad, hyd at ddiwedd Medi, 2023.**

---

## 1. Cyflwyniad / Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf, 2022 gwnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd adolygu rôl y Prif Weithredwr ac, ar ôl ystyried yr opsiynau, penderfynwyd cyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ryddhau rhan o amser ei Gyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig, o leiaf hyd at 31 Mawrth, 2023.

Dewiswyd yr opsiwn o gyflwyno'r cais yma i'r Bwrdd Uchelgais gan ei fod yn debygol bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei ymgorffori'n rhan o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, y byddai cost sylweddol uwch pe bai swydd Prif Swyddog annibynnol wedi'i greu, a gan nad oes digon o amser ar gael i un o'r 6 Prif Weithredwr awdurdod lleol oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Mae'r penderfyniad mewn egwyddor, i drosglwyddo Uchelgais Gogledd Cymru i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, eisoes wedi ei wneud gan y Cynghorau ac yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol diweddar bydd modd mynd i'r afael â'r broses yma yn ystod y misoedd nesaf. Fel rhan o unrhyw drosglwyddiad bydd sefyllfa holl staff y Swyddfa Rheoli Portffolio yn cael ei gyfarch.

Fe gofiwch bod angen i'r Bwrdd Uchelgais gymeradwyo rhyddhau y Cyfarwyddwr Portffolio cyn i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddod i benderfyniad ar benodi Prif Weithredwr dros-dro. Gwnaed hynny yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 30 Medi, 2022 pryd y cytunwyd y gellid rhyddhau rhan o amser y Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor ar sail secondiad.

O ganlyniad, bu i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, yn ei gyfarfod ar y 7 o Hydref, 2022 gymeradwyo penodiad Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru, fel Prif Weithredwr rhan-amser, ar sail secondiad, hyd nes caiff y swydd ei hadolygu eto gan y Cyd-bwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

Daeth y trefniant dros-dro hwn, i’r Cyfarwyddwr Portffolio gyflawni swyddogaeth fel Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig am ddau diwrnod pob wythnos, yn weithredol ar y 10 o Hydref, 2022.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru, drwy Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Lletya, yn parhau’n gyflogwr cytundebol i’r Cyfarwyddwr Portffolio ac mae’r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn digolledu Uchelgais Gogledd Cymru am y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy’n gysylltiedig â’r secondiad. Rhoddwyd yr awdurdod i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd wneud y trefniadau angenrheidiol o fewn yr hyblygrwydd sydd yng nghyllideb 2022/23 y Cyd-bwyllgor.

## 2. Sefyllfa Interim Ôl-Mawrth 2023

Mae angen rhoi sylw pellach i nifer o faterion allweddol cyn y gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig benodi Prif Weithredwr ar sail parhaol e.e. trosglwyddiad tebygol staff i gyflogaeth y Cyd-bwyllgor, tra bod angen i’r Cyd-bwyllgor adolygu trefniadau presennol y secondiad a’r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod ar y 7 o Hydref, 2022 a hynny cyn 31 Mawrth, 2023.

O dan yr amgylchiadau presennol, mae angen i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sicrhau Prif Weithredwr ar sail dros-dro ac felly cynigir eich bod yn cymeradwyo ymestyn cyfnod penodiad y Cyfarwyddwr Portffolio tan 30 Medi, 2023 ar sail yr amodau presennol ac yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i’w rhyddhau ymhellach.

Cyflwynir adroddiad i gyfarfod o’r Bwrdd Uchelgais yn gynharach yn y dydd ar y 24 o Fawrth, 2023 yn ceisio ei gytundeb i ymestyn y cyfnod y mae’n fodlon rhyddhau ei Gyfarwyddwr Portffolio. Gellir adrodd ymateb y Bwrdd Uchelgais i'r cais hwnnw ar lafar yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Corfforedig cyn ystyried yr eitem hon.

## ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gytuno i ymestyn secondiad rhan-amser Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru i rôl Prif Weithredwr y CBC hyd at ddiwedd Medi, 2023, yn unol â’r penderfyniad a geisir (ac yn amodol ar gytundeb y Bwrdd Uchelgais).**

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Swyddog Monitro

Rwyf wedi cael mewnbwn i’r adroddiad ac yn fodlon gyda priodoldeb yr argymhellion

### Swyddog Cyllid Statudol

Mae Cyllideb y Cydbwyllgor Corfforedig ar gyfer 2023/24, a gymeradwywyd yn Ionawr 2023, yn cynnwys amser y Prif Weithredwr am ddau ddiwrnod yr wythnos. Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.